

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

---

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

### Mehefin 12fed am 7.30

**Presennol:** Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur, Karl Jones, Heledd Jones, Beryl Hughes Griffiths, Bethan Williams, Catrin Roberts, Arwel Lloyd Jones, Rhodri Jones

**Swyddogion:** Bethan Edwards, Lis Puw

Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor gyda Karl Jones yn ei brofedigaeth ddiweddar. Llongyfarchodd Huw Antur ar lwyddiant Gruffudd yn ennill cadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mynegodd balchder o weld Beryl Hughes Griffiths wedi gwella o'i salwch diweddar.

**1080** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Trow ac Alan Evans

**1081** Derbyniwyd datganiadau o berthynas teuluol gan Bethan Williams a Beryl Hughes Griffiths ym mater Gwersyll Bwch yn Uchaf, ond dim buddiant personol.

**1082** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Mai 2012

**1083 Materion yn codi o gyfarfod mis Mai:**

- 1) Sedd wag ar y Cyngor: un enwebiad oedd wedi dod i law, sef Mr Dewi Jones, a chytunwyd yn unfrydol i'w gyfethol.
- 2) Pwmp y Llan: mae'r gwaith wedi ei gwblhau ac mae'r pwmp yn edrych yn dda iawn
- 3) Hysbysfwrdd y Llan: adroddodd Mr Arwel Lloyd Jones fod yr hysbysfwrdd yn barod i'w osod yn ei le a bod plac yn cael ei lunio. Diolchwyd iddo am wneud y trefniadau. Awgrymwyd y byddai llun o'r hysbysfwrdd ac o Mrs Gwen Jones yn werth i'w gyhoeddi yn Y Cyfnod.
- 4) Cynlluniau'r toiledau: derbyniwyd adroddiad yr is-bwyllgor o gyfarfod 22/5/12. Mae cynlluniau ardderchog wedi eu gwneud (arian Llywodraeth Cymru) ond nid yw'r bws o'r Bermo i Wrecsam yn awr yn rhan o rwydwaith y Traws Cambria, felly nid oes arian ar gael i wireddu'r cynllun. Cytunodd Mr Karl Jones i geisio addasu'r cynllun er mwyn lleihau'r gost gyda'r bwriad o geisio am grantiau i wneud gwelliannau sylfaenol.
- 5) Maes y Pandy - derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf ar ffurf e-bost PC Jones. Mae Mr Arwel Lloyd Jones wedi rhannu llythyron a baratowyd gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd i drigolion Maes y Pandy. Diolchwyd iddo am wneud hyn. Mae'r llythyron yn annog trigolion i ffonio **0300 123 8084** os oes cwyn.
- 6) Derbyniwyd E-byst gan wahanol swyddogion am oryrru - mae'r ffordd fawr wrth Lanuwchllyn yn cael ei hasesu o fewn y misoedd nesaf. Yn y cyfamser bydd Siwrne Saff, fan CCTV yr Heddlu a mesurau eraill i gadw golwg ar y broblem.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

---

Adroddodd nifer o Gynghorwyr am bryder cyffredinol am gyflymder bysus Arriva wrth deithio trwy'r pentref.

**Gweithredu: Clerc i ysgrifennu at Arriva.**

- 7) Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru - derbyniwyd Adroddiad gan y Cadeirydd gan sôn yn gyntaf am barch mawr y Pwyllgor Ardal at waith a ffyddlondeb y cynghorydd Iorwerth Evans. Cafwyd ymweliad gan yr Heddlu yn egluro bydd cwnstabiliaid arbennig yn cymryd lle'r 24 heddwes a gollwyd o Wynedd. Cafwyd dogfen uniaith Saesneg gan y Bwrdd Iechyd yn egluro bydd mwy o nyrsys cymunedol yn cael eu hapwyntio gan nad yw cleifion yn cael aros yn hir mewn ysbytai yn dilyn triniaeth. Gofynnwyd am ohebiaeth ddwyieithog. Derbyniwyd cais am fwy o wybodaeth am drefniant arloesol Partneriaeth Penllyn. Trafodwyd cwynion am amserlen Arriva sydd yn ei gwneud yn anodd i deithwyr newid o un bws i'r llall. Trafodwyd hefyd y bygythiad i bysgota môr ar arfordir Meirionnydd.
- 8) Maes gwersylla Bwch yn Uchaf – (a) Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r perchennog (14/5/12) i drafod ymddygiad gwersyllwyr a'r tarfu ar lonyddwch y pentref. (b) Trafodwyd ymateb y Parc Cenedlaethol a chytunwyd i ofyn i'r Parc ohirio penderfyniad nes bo'r Cyngor wedi cael mwy o amser i ystyried y mater.

## 1084 Gohebiaeth:

**1.Gwynedd:** Derbyniwyd Rhaglen waith Mis Mehefin

**2.Parc Cenedlaethol Eryri - ystyried:**

- (a) NP5/71/ 407B Gosod Tyrbin Gwynt (Garth Isaf - cynllun diwygiedig) - cytunwyd i wrthwynebu'r cais diwygiedig.
- (b) Derbyniwyd gwybodaeth am ddiwrnod agored 19/6/12

**3.Un Llais Cymru:**

- (a) Nodwyd llythyr am y Gynhadledd Flynyddol 13/10/12
- (b) Nodwyd y cais am wybodaeth ar drefniadau rheoli risg llifogydd

**4. Arall:** Derbyniwyd neges gan Dyfir Gwent ar ran y teulu yn diolch i'r Cyngor am Faen Llew

## 1085 Materion ariannol:

- 1) Y sefyllfa ariannol bresennol – adroddwyd bod y llyfrau wedi eu harchwilio a'u cael yn gywir. Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo ffurflen Hacker Young.
- 2) Derbyniwyd prisiad ar werth Cwt yr Hers, sef £5,000
- 3) Cytunwyd i dderbyn dyfynbris Yswiriant Zurich ac i'w dalu
- 4) Cofrestru'r Cyngor fel Cyflogwr – adroddwyd y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn mis nesaf
- 5) Derbyniwyd pris ar gyfer glanhau mwsogl o lwybrau'r fynwent (£160) a chytunwyd i'r gwaith cael ei wneud
- 6) Derbyniwyd bil dŵr hanner blwyddyn am y Toiledau (£108.39) a chytunwyd i'w dalu.

## Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

---

**1086 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd Adroddiad gan y Cynrychiolwyr: cafwyd nifer o gyfarfodydd yn ddiweddar, yn cynnwys hyfforddiant ar greu Cynllun Busnes, a llenwi ffurflen i ryddhau arian ar gyfer Astudiaeth Dichonolrwydd. Cafwyd ymateb niferus a chadarnhaol iawn i'r Holiadur Cymunedol, ond un canlyniad oedd bod yr ieuencid yn arbennig yn gweld siop ar y Stryd Fawr yn rhy gyhoeddus ar gyfer y sawl sy'n dymuno derbyn cyngor a chymorth. O ganlyniad, bydd Partneriaeth Penllyn yn symud allan o'r siop, gan ddiolch yn fawr iawn i Gwmni Rowlands a'r perchennog am eu haelioni yn ei roi i ni. Ar hyn o bryd mae'r Partneriaeth yn chwilio am le addas ac mewn trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd yng nglyn â'r Henblas. Gobeithir ffurfio grŵp hyd braich o'r cynghorau cymuned ar gyfer rhedeg y fath ganolfan a disgwylir trafodaeth gyda mudiad cydweithredol Cymru. Bydd trafodaeth ar symud ymlaen gyda "clerk of works" rhan amser yn y cyfarfod nesaf.

Amser gorffen: 9.15pm